Gwasanaeth: Bwyd a ffasiwn

Cynulleidfa darged: **Cyfnod Allweddol 4** ***Hyd:*** **15 munud**

Cynllun Gwasanaeth

1 Dadbacio bag siopa
Eglurwch yr hoffech rannu eich brecwast gyda'r gynulleidfa.

2 O ble ddaeth fy mrecwast?
Darllenwch ddyfyniad Martin Luther King (gan sôn ei fod yn ymgyrchydd hawliau dynol, rhag ofn nad yw pawb yn gwybod hynny), ac eglurwch fod y cynnyrch brecwast wedi'i gynhyrchu gan bobl yng ngwledydd tlotaf y 'De' (yn Affrica, Asia, y Caribî, a De America). Maent wedi cyrraedd yma yn sgil masnach – er ein bod yn gwybod o bosib bod y nwyddau wedi dod o bell, nid ydym yn aml yn meddwl am y bobl y tu ôl i'r nwyddau.

Mae nifer o gynhyrchwyr yn y 'De' yn dlawd, ac yn mynd yn dlotach, o ganlyniad i reolau **masnach ryngwladol,** sy'n rheoli sut gall gwledydd gyfnewid nwyddau gyda'i gilydd. Gofynnwch i wirfoddolwyr ddangos cardiau yn nodi'r problemau sy'n wynebu cynhyrchwyr. Yn ffodus, mae'r bobl a gynhyrchodd y nwyddau brecwast penodol hyn yn rhan o fasnach wahanol – Masnach Deg. Golyga hyn eu bod wedi derbyn pris teg am eu cynnyrch, ac o ganlyniad i'r arian ychwanegol iddynt hwy a'u cymunedau, bu modd iddynt gynllunio ar gyfer y dyfodol, a gwella'u bywydau.

Fel 'defnyddwyr' gallwn gael effaith uniongyrchol ar bobl yn y De drwy ddweud wrth bobl am Fasnach Deg, a phrynu nwyddau Masnach Deg lle bynnag y bo'n bosib. Sut y gwyddom fod rhywbeth yn Fasnach Deg? Edrychwch am y nod Masnach Deg. Efallai i chi weld y nod Masnach Deg ar fananas, te a choffi a siocled, ond mewn gwirionedd mae dros 4500 o nwyddau â nod Masnach Deg bellach ar gael.

3 Ai'r ffermwyr hyn yw'r unig gynhyrchwyr yn y De sy'n wynebu anawsterau?
Na, gallai Martin Luther King fod wedi cyfeirio at ein dillad, yn ogystal â'n brecwast. Rydym yn gwisgo ein gwisg ysgol bob bore, ond a ydym yn ystyried o ble y daw, neu sut y cafodd ei wneud? Rydym i gyd yn siopa am ddillad – ond faint a wyddom am gefndir y labeli a brynwn?
Heriwch wybodaeth/rhagdybiaethau'r gynulleidfa.
Darllenwch/dangoswch y datganiadau ffasiwn. Gofynnwch iddynt godi eu dwylo os yw'r datganiadau'n wir, yn eu barn hwy.

Adnoddau

Bag o nwyddau brecwast Masnach Deg (te, coffi, muesli, siwgr, bananas, sudd ffrwythau, siocled poeth)

Dyfyniad Martin Luther King (gweler adnoddau tudalen 3)

Cardiau yn dangos y problemau (gweler adnoddau tudalen 3)

Nod Masnach Deg (copïau caled ar gael am ddim o http://online.fairtrade.org.uk/ neu gweler tudalen 3)

Chwe datganiad ffasiwn (gweler adnoddau tudalen 3)

4 Beth ydym yn ei ystyried wrth brynu dillad?
Eu golwg? Eu pris? Eu maint?
Fel rheol, nid oes gennym syniad o ble y daethant, na sut y cawsant eu cynhyrchu.
Ble? Mae pâr o jîns yn debygol o fod wedi cael ei gynhyrchu mewn sawl gwlad wahanol. Dyfalwch faint. Efallai 10 neu fwy – dangoswch y jîns.
Sut? Mae jîns wedi eu gwneud o gotwm, sydd wedyn yn cael ei wehyddu i ddefnydd jîns. Mae'r cotwm yn aml wedi'i gasglu â llaw, gan blant. Mae casglu cotwm yn waith caled, ac nid oes gan y gweithwyr ddillad addas i'w hamddiffyn. Yn aml maent yn gweithio gyda phlaladdwyr cryf, ac yn dioddef niwed i'w hiechyd. Mae'r gweithwyr ffatri hefyd yn dioddef amodau gwaith difrifol, yn ogystal â'r casglwyr. Darllenwch y detholiadau o straeon gweithwyr.

Adnodd: Taith pâr o jîns (tudalen 4)
Hefyd pâr o jîns i'w ddangos os yn bosibl.

Detholiadau o straeon gweithwyr
(gweler adnoddau tudalen 4)

5 Sut mae hyn yn berthnasol i ni?
Er gwaethaf eu hanawsterau, mae gweithwyr yn dod o hyd i ffyrdd o ddygymod, i geisio gwella eu sefyllfa. Mae nifer o ffyrdd o'u cefnogi.
Nid yw hyn yn golygu bod angen i ni beidio prynu dillad, ond mae yn golygu y gallwn annog adwerthwyr i wella amodau gwaith:

Wrth siopa gofynnwch i'r rheolwr am wybodaeth am ble y gwnaed y dillad, ac o dan ba amodau.

Ysgrifennwch lythyrau at adwerthwyr yn mynegi eich pryder ac yn gofyn am fwy o wybodaeth.

Dysgwch fwy drwy gysylltu gyda mudiadau fel 'Labour Behind the Label', 'Clean Clothes Campaign' ac 'EJ foundation' a dywedwch wrth bobl eraill am yr hyn a wyddoch ac a ddysgwch.

Cefnogwch Fasnach Deg – mae cefnogi Masnach Deg yn gwarantu tegwch i gasglwyr cotwm.

Yn ystod ei oes, ar gyfartaledd, bydd person o'r DU yn gwario MILIWN o bunnoedd – golyga hyn fod gan bob un ohonom rym prynu enfawr.
Eglurwch i'r myfyrwyr, fel cenhedlaeth newydd o siopwyr, fod eu dewisiadau'n bwysig, a bod modd iddynt wneud gwahaniaeth.

Adnoddau Gwasanaeth

(gellir eu hatgynhyrchu ar gerdyn neu gweler y powerpoint)

Yn y bore, rydym yn yfed coffi a ddarparwyd gan berson o Dde America, neu de gan berson o Tsieina, neu goco gan berson o Orllewin Affrica. Cyn i ni fynd i'r gwaith, rydym eisoes mewn dyled i dros hanner y byd

Cardiau yn dangos problemau sy'n wynebu nifer o gynhyrchwyr y De

- Cyflog isel, prisiau anwadal.
- Amodau gwaith anniogel
- Dim sicrwydd swydd – na nawdd cymdeithasol
- Diffyg addysg – nid yw'r plant yn mynd i'r ysgol
- Dim ffordd o wella cartrefi.
- Methu fforddio gofal meddygol.
- Dim trydan, dim pibellau dŵr, dim trafnidiaeth.

Datganiadau Ffasiwn

1) Yn y DU, rydym yn gwario £3.8 biliwn y mis ar ddillad. (Gwir)[1]
2) Mae 1000 o farwolaethau'r flwyddyn yn gysylltiedig gyda'r defnydd o blaladdwyr ar gotwm, gan olygu mai dyma'r cnwd mwyaf gwenwynig ar y ddaear. (Gau, 20,000) [2]
3) Mae 900,000 tunnell o ddillad yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi yn y DU bob blwyddyn. (Gwir) [3]
4) Yn India, cofnodwyd bod dros 100,000 o blant yn gweithio shifftiau 13 awr am 1 doler y dydd. (Gau, hanner doler y dydd)[4]
5) Yn Uzbekistan mae'r llywodraeth yn gorchymyn i blant cyn lleied â saith oed gynaeafu'r cnwd cotwm blynyddol. (Gwir) [5]
6) Mae angen 10,000 litr o ddŵr i gynhyrchu un kg o gotwm – a gan fod cotwm yn tyfu mewn gwledydd lle mae prinder dŵr, mae hyn yn gosod straen enfawr ar adnoddau lleol. (Gwir)[6]

---

[1] Gweler tudalen 16 am ffigurau blynyddol yn 2008: http://www.statistics.gov.uk/downloads/theme_economy/CT2009q3.pdf
[2] http://www.ejfoundation.org/page327.html; http://www.channel4learning.com/sites/lifestuff/content/citizens/money_matters_t.html
[3] http://www.globalcool.org/news/167/swish-clothes-reduce-carbon-emissions
[4] http://www.ejfoundation.org/page327.html
[5] http://www.ejfoundation.org/page327.html
[6] http://www.ejfoundation.org/page334.html

Taith pâr o jîns - enghraifft
• Cotwm o Benin, Gorllewin Affrica, gweithwyr yn derbyn 60c y dydd
• Maenolchi gan ddefnyddio pwmis o Dwrci
• Rhybedion pres o gopr o Namibia a sinc o Awstralia
• Dannedd sip a wnaed yn Japan
• Edau a gynhyrchwyd yng Ngogledd Iwerddon
• Gwnïwyd gan weithiwr yn Tunisia, a dderbyniodd 58c yr awr

Straeon Gweithwyr

Plentyn 10 oed o Uzbekistan
Rwy'n casglu cotwm drwy'r dydd. Mae'n ddiwrnod hir iawn. Rwy'n teimlo ein bod yn cael ein trin fel caethweision. Rwyf wedi blino, a hoffwn fynd adref. Mae ein hathrawon yn dod â ni yma – mae'r wladwriaeth yn gorchymyn hynny. Mae'r ysgolion yn cau fel y gall y plant gasglu cotwm. Os fyddaf yn cwyno, byddaf yn cael fy eithrio o'r ysgol. Rwy'n gweithio 14 awr y dydd, ac mae'n waith trwm a chaled iawn. Ni all unrhywun godi llais.

Stori Alick
Mae Alick yn casglu cotwm yn Zambia. Mae'n poeni nad yw'r arian a ddaw o gasglu cotwm yn ddigon i dalu costau ei deulu dros y flwyddyn i ddod. "Nid yw'r arian a dderbyniaf am ffermio cotwm yn ddigon i'm teulu a mi am dri mis". Weithiau mae mewn dyled i gwmnïau sy'n prynu oddi wrtho, gan fod costau cynhyrchu yn fwy na'r pris y gellir ei godi am y cotwm. Mae nifer o ffermwyr yn amau fod y cloriannau pwyso cotwm wedi'u rigio. "Rydym yn gweithio dydd ar ôl dydd, yn gobeithio dianc rhag tlodi a newyn, ond ar ddiwedd y dydd nid ydym yn cael unrhyw beth o gwbl, oherwydd y pris gwael am gotwm sy'n cael ei gynnig gan gwmnïau rhyngwladol. Rydym yn gweithio fel caethweision neu garcharorion i'r cwmnïau sy'n gyfoethocach bob dydd. Rydym yn cael ein defnyddio fel llafur rhad." Mae prisiau'r plaladdwyr yn uchel, mae'r plaladdwyr yn beryglus a bydd nifer o bobl yn dioddef problemau iechyd yn sgil hyn.

Stori Padmini
Mae Padmini yn gweithio mewn ffatri Brydeinig yn Sri Lanka. Mae'n gwnïo ystod o ddillad gwahanol. "Mae gwahanol fathau o ddillad yn cael eu gwnïo yma, felly rwy'n gweithio mewn gwahanol adrannau. Pan ddaw cynllun newydd, maent yn ei arddangos am tua 5 munud, ac yna rhaid i ni roi cynnig arno ar ddarn o ddefnydd – wedyn gallwn ddechrau cyflawni ein targedau cynhyrchu. Mae'r holl eitemau yr ydym yn eu gwnïo yn cael eu hanfon i siopau yn y DU. Rydym yn gweithio rhwng 8am a 5pm, ond pan fo archebion brys, rhaid i ni weithio drwy'r nos. Golyga hyn ein bod yn gweithio shifft dydd, yna drwy'r nos, ac yna shifft dydd arall. Mae gennym doriad byr i fwyd, yna toriad byr rhwng 2 a 3 yn y bore. Rydym yn ceisio peidio cysgu yn ystod y toriad hwn oherwydd mae'n ei gwneud yn anos i weithio."

Chakuben - Ffermwr Masnach Deg
Mae Chakuben yn gweithio gyda'i gŵr yn India. Mae ganddynt ddau o blant. Gyda'u cyflogau am weithio yn y caeau gallant fforddio anfon y plant i'r ysgol gynradd leol. Maent yn gweithio dros Gydweithredfa Masnach Deg o'r enw Agrocel, lle mae menywod yn derbyn yr un cyflog â dynion – rhywbeth prin – ac yn derbyn cyfnod mamolaeth cyflogedig. Mae ffermwyr yn derbyn 30% o bremiwm uwch ben pris cotwm confensiynol, ac maent yn derbyn pensiwn, yswiriant iechyd, ac adnoddau meddygol da. "Mae ffermio Masnach Deg wedi trawsnewid ein bywydau".

Yn Dilyn y Gwasanaeth: Gweithredu!

- ❖ Holwch o ble y daw eich cotwm/dillad.
- ❖ Ymgyrchwch yn eich hoff siop ddillad er mwyn iddynt werthu mwy o ddillad Masnach Deg
- ❖ Ymchwiliwch i fater gwisgoedd ysgol Masnach Deg
- ❖ Dewch yn Ysgol Masnach Deg, mae hyn yn cynnwys 5 nod:

- Sefydlu Grŵp Llywio Ysgol Masnach Deg gydag o leiaf eu hanner yn ddisgyblion, gan gyfarfod o leiaf unwaith y tymor.
- Ysgrifennu a mabwysiadu Polisi Masnach Deg sydd â chefnogaeth y Bwrdd Llywodraethwyr ac wedi'i lofnodi gan y Pennaeth.
- Defnyddio a gwerthu nwyddau Masnach Deg cymaint ag sy'n bosibl.
- Dysgu am Fasnach Deg mewn o leiaf tri phwnc mewn dau grŵp blwyddyn.
- Cymryd camau dros Fasnach Deg o leiaf unwaith y tymor yn yr ysgol ac unwaith y flwyddyn yn y gymuned.

- ❖ Cynhaliwch ddiwrnod codi ymwybyddiaeth Masnach Deg yn yr ysgol
- ❖ Cysylltwch gyda'ch grŵp tref Masnach Deg lleol